

Datganiad Polisi Cynnwys 2012

1. Rhagarweiniad

Mae 2012 yn flwyddyn nodedig a chyffrous i S4C. Ym mis Tachwedd fe fydd y Sianel yn dathlu 30 mlynedd o ddarlledu. Hefyd ar Fawrth 1af byddwn yn lansio amserlen newydd fydd yn gwireddu egwyddorion strategaeth newydd S4C, Gweledigaeth 2012 a Thu Hwnt.

Mae'r cyfnod o ddechrau 2012 yn cynnig nifer o sialensiau. Mi fydd y Sianel yn derbyn llai o gyllid wrth gamu i gyfnod gwbl ddigidol ac aml blatfform. Mae'n rhaid ymateb i'r fath sialensiau mewn modd blaengar a hyderus gan ddarparu gwasanaeth sydd yn berthnasol i fywydau ein gwylwyr a'n defnyddwyr.

Mae S4C yn ddarlledwr gwasanaethau cyhoeddus nodedig ac unigryw yn yr iaith Gymraeg. Rydym am ddarparu ystod eang o gynnwys a gwasanaeth fydd yn apelio at Gymru a Chymry drwy ymateb i ofynion a disgwyliadau ein cynulleidfa mewn modd adloniadol a hwyliog.

Byddwn yn cynnig cynnwys sy'n wreiddiol, yn ddyfeisgar ac yn ddeniadol. Ar adegau byddwn yn cynnig deunydd sydd yn feiddgar ac yn gyfoes, ac mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid gwthio'r ffiniau a chymryd risg.

Mae gwreiddioldeb y cynnwys a sicrhau naratif cryf yn greiddiol i'n rhaglenni, a dylai'r iaith fod yn addas ac yn syml. Mi fydd y gwasanaeth yn adlewyrchu amrywiaeth bywydau a chymunedau yng Nghymru a thu hwnt, gan ysgogi a hybu dealltwriaeth o'n byd. Byddwn yn cynnig rhaglenni sy'n adlewyrchu ac yn cryfhau ein hunaniaeth a'n diwylliant, fel rhan o wasanaeth nodedig a hyderus.

Bydd ein cynnwys yn addysgu, hysbysu ac adlonni ac yn cynrychioli gwahaniaethau barn. Byddwn yn cynnig rhaglenni sy'n rhaid eu gweld ac sy'n dod â chynulleidfa oedd at ei gilydd i drafod ac i rannu profiadau. Bydd ein cynnwys yn ysgogi ymateb a thrafodaeth.

Mae S4C yn credu bod darpariaeth gyflawn o raglenni a gwasanaethau ar gyfer plant yn rhan allweddol o gyfraniad y Sianel fel ddarlledwr gwasanaethau cyhoeddus.

Mae gan ddarlledwr cyhoeddus hefyd ddyletswydd a chyfraniad i'w wneud er mwyn sicrhau cynnwys ar wahanol blatfformau digidol. Mae hyn yn ehangu dewis ac yn ymestyn effaith ein gwasanaethau. Byddwn yn sicrhau bod ein cynnwys ar gael yn eang gan ddarparu gwasanaeth cynhwysol sy'n cynnig cyfleoedd i bawb ein gwyllo a chael budd o'r cynnwys. Yn 2012, mi fydd S4C yn mynd fwy fwy at galon y genedl.

Mae'r rhan fwyaf o gynnwys S4C yn cael ei ddarparu gan ein cynhyrchwyr annibynnol a gan y BBC. Mae'r bartneriaeth greadigol rhwng S4C a'r cynhyrchwyr yn holl bwysig wrth i ni gomisiynu a chynllunio cynnwys. Fe fydd y berthynas yma'n canolbwyntio ar gydweithio'n agos, cynnal deialog cyson, rhannu gwybodaeth a gwneud yn siŵr fod y cynnwys gorau o'r safon uchaf yn cyrraedd y sgrin.

Byddwn yn mesur llwyddiant ac effaith ein cynnwys yn ôl y pum maen prawf canlynol:

- a) Mesur cynulleidfa.
- b) Safon y cynnwys.
- c) Gwerthfawrogiad y gynulleidfa.
- ch) Gwerth am arian.
- d) Traweffaith ehangach gan gynnwys yn ddiwylliannol ac yn economaidd.

Mae S4C am wynebu 2012 yn hyderus – a hynny er gwaetha'r ffaith bod yna lai o arian ar gael. Rydym am sicrhau gwasanaeth perthnasol, apelgar ac o'r safon uchaf posib, gyda chynnwys newydd a gwreiddiol sydd wedi ei ariannu'n briodol a'i gynhyrchu'n dda.

Mae'n flwyddyn nodedig a phwysig.

2. Amserlen 2012

Mae yna dri chyfnod gwahanol o fewn amserlen darlledu'r Sianel yn 2012. Ar Fawrth 1af byddwn yn lansio amserlen newydd S4C fydd yn ymateb i'r her a osodwyd gan y cwtogiad i gyllid y Sianel. Rhwng Ionawr 1af a hynny mi fydd yr amserlen bresennol yn weithredol. Mae ein gwaith ymchwil yn dangos fod llai o bobol ar gael i wyluo yn ystod misoedd yr haf. Mae'n adeg lle mae patrwm gwyluo llawer o wylwyr yn newid oherwydd cyfnod gwyliau ac oriau golau dydd. O'r wythnos ar ôl Yr Eisteddfod Genedlaethol tan ddechrau Medi felly byddwn yn gwneud defnydd helaeth o'n harchif gan gwtogi ar yr oriau gwreiddiol a ddarllidir. Yn ystod y cyfnod hwn mi fydd prif gonglfeini'r amserlen yn dal i gynnig darpariaeth wreiddiol a chyfoes yn yr amserlen.

Trwy'r flwyddyn byddwn yn darlledu o 07.00 y bore tan yr hwyr.

Y gwasanaeth i blant meithrin, **Cyw** fydd yn cael ei ddarlledu yn y bore. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ymestyn i rai o oriau'r prynhawn unwaith bydd yr amserlen newydd yn dechrau ym mis Mawrth.

Yn ogystal â darlledu cynnwys ar gyfer plant a phobol ifanc, mae'n bwysig ein bod ni hefyd yn gallu cynnig gwasanaeth i weddill y gynulleidfa sydd ar gael i wyluo yn ystod oriau'r dydd. Byddwn felly yn dal i ddarlledu rhaglenni gwreiddiol, archif, ac ailddarllediadau yn y prynhawn i fyny tan fis Mawrth. Wedi hynny byddwn yn lansio gwasanaeth newydd yn ystod y prynhawn fydd yn apelio at y gynulleidfa sydd ar gael i wyluo. Bydd gwasanaeth y prynhawn yn agor ac yn cloi gyda bwletinau newyddion a thywydd.

Mi fydd **Cyw** yn ymestyn i ddarlledu rhwng 15.00 a 17.30 yn yr amserlen newydd er mwyn i blant sydd wedi bod mewn meithrinfa neu'r ysgol gael cyfle i wyluo.

Am 17.30 o Fawrth ymlaen bydd **Stwnsh** sef y gwasanaeth i blant hŷn rhwng 7 a 12 oed yn darlledu tan 18.30 a than 18.00 ar nos Wener.

Yn ystod yr oriau brig sef rhwng 18.30 a 22.00 mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwyluo teledu, mae'n addas felly y byddwn yn buddsoddi'r rhan fwyaf o'n cyllid cynnwys mewn rhaglenni fydd yn darlledu yn ystod y cyfnod hwn. Rydym am ymateb i brysurdeb bywyd gwylwyr gan roi mwy o raglenni hanner awr o fewn yr amserlen oriau brig. Mae'n bosib y byddwn yn darlledu rhaglenni hwy os bydd rhesymau golygyddol cryf dros wneud hynny.

O nos Lun i nos Iau byddwn yn gosod congllfeini cyson i'r oriau brig sef **Newyddion, Tywydd**, Operâu Sebon a rhaglenni cylchgrawn. Er mwyn ymateb i ofynion ein gwylwyr ac i dargedau Ofcom byddwn yn darlledu rhaglenni materion cyfoes o fewn yr oriau brig.

Mae 18.30 yn gyfle i ddenu cynulleidfa ifanc ac felly rydym yn ymestyn cyfres **Rownd a Rownd** i redeg trwy'r flwyddyn dwywaith yr wythnos gydag omnibws o awr ar nos Wener - a hynny gydag is-deitlau agored.

Mae'r awr o ddarlledu rhwng 19.00 a 20.00 yn un hynod o bwysig i'r amserlen ac felly o fis Mawrth ymlaen byddwn yn lansio rhaglen gylchgrawn newydd a gwasanaeth Newyddion newydd. Bydd y ddwy raglen yma yn rhoi sylw i brif storïau newyddion y dydd yn ogystal â phynciau trafod ac elfennau hamdden y Gymru gyfoes.

Am 19.55 yn nosweithiol o fis Mawrth, byddwn yn sefydlu cainc newydd, **Calon**, fydd yn gyfres o ffilmiau byrion yn cynnig portread o wahanol elfennau o fywyd yng Nghymru. Mae'n fwriad gennym sefydlu gwefan i gyd-fynd gyda'r gyfres fydd yn gyfle i'n gwylwyr greu eu deunydd eu hunain i arddangos. Mi fydd y prosiect hefyd yn cynnig cyfle a llwyfan i dalent newydd.

Fe fydd **Pobol y Cwm**, ein prif opera sebon, i'w weld am 20.00 trwy gydol y flwyddyn, a hefyd ar ffurf omnibws gydag is-deitlau agored ar brynawn Sul.

Bydd yr amser rhwng 20.25 a 22.00 yn gyfnod lle y byddwn ni'n darlledu cynnwys gwreiddiol gydag ambell ailddarllediad o raglenni sy'n hawlio diddordeb ein cynulleidfa. Mae'n hynod bwysig ein bod yn gallu cynnig ystod eang o gyfresi a rhaglenni fydd yn adlonni, addysgu, a hysbysu. Bydd yr amserlen yn sicrhau

cydbwysedd er mwyn apelio at gynulleidfaoedd newydd a chynulleidfaoedd presennol. Rydyn ni am gynnig amrywiaeth ar draws bob genre o fewn yr oriau yma gan gynnig cyfleoedd i'r teulu cyfan i wylïo cynnwys fydd yn sbarduno trafodaeth. Am 21.00 bydd modd darlledu cynnwys fydd yn heriol a miniog.

Er mwyn cynnig gwasanaeth newyddion cynhwysfawr byddwn yn darlledu bwletinâu newyddion trwy gydol yr amserlen ac ym mis Mawrth bydd y gwasanaeth yn agor ac yn cloi ein darlledu tu fas i oriau plant.

Ym mis Mawrth am 22.00 fe fyddwn yn cynnig cyfle arall i wylïo'r cylchgrawn nos weithiol a phennod y noson o **Pobol y Cwm** gydag is-deitlau agored.

Ar nosweithiau Iau a Gwener yn enwedig o fis Mawrth ymlaen bydd yna ymdeimlad o'r penwythnos. Yn ystod yr oriau hwyr ar nos Iau byddwn yn cynnig amrywiaeth o gynnwys fydd yn apelio at gynulleidfa ifanc. Bydd patrwm newydd i amserlen nos Wener o fis Mawrth gyda lansiad sioe newydd fydd yn cynnig cynnwys adloniannol a chyfoes yn darlledu mewn dau bloc un am 19.00 a'r ail ran am 20.25.

Clwb Cyw a Stwnsh fydd yn darlledu ar fore Sadwrn. Mae ein gwasanaethau mynediad yn sicrhau fod cynnwys y Sianel ar gael i'r gymdeithas gyfan. Mae oriau ailddarlledu gydag arwyddo, felly, yn hollbwysig er mwyn creu cynnwys y bydd pawb yn gallu ei ddeall a'i fwynhau. Mi fydd y gwasanaeth hwn ar gael yn ystod prynhawniau'r penwythnos.

Mae ein darllediadau chwaraeon byw yn hynod boblogaidd ac yn gallu apelio at gynulleidfa wahanol gan ddenu niferoedd mawr o wylwyr. Mae hyn yn hollbwysig wrth ddenu hysbysebion masnachol a chreu incwm i'r Sianel. Mae yna le amlwg, felly i'n darpariaeth rygbi a phêl-droed o fewn amserlen y penwythnos. Mae hyn yn cynnwys gemau pêl-droed byw ar brynhawn Sadwrn a gemau rygbi byw ar nos Sadwrn. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hawliau, mi fyddwn ni'n barod o bryd i'w gilydd i gynnig gemau o safon ar adegau eraill o fewn yr oriau brig neu ar brynhawn Sul. Mae ein gwefan hefyd yn cynnig cyfleoedd i ni fanteisio ar ein hawliau.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'n darpariaeth rygbi byw yn gorffen erbyn 21.00 ar nosweithiau Sadwrn. Er bod 'na gystadleuaeth frwd ar y gwahanol sianeli am gynulleidfa deuluol ar nosweithiau Sadwrn, mae 'na ddyletswydd ar S4C i ddiwallu anghenion y gynulleidfa yma yn y Gymraeg. Mi fyddwn ni felly yn rhoi pwyslais ar adloniant teuluol eang ei apêl am 21.00 ar nos Sadwrn.

Clwb Cyw fydd y rhaglen gyntaf ar fore Sul, gan ddarlledu rhwng 07.00 a 09.30.

Am resymau masnachol fe fyddwn ni'n ailddarlledu rygbi nos Sadwrn ar fore Sul.

Mi fydd 'na le amlwg o fewn ein horiau ar ddydd Sul i'n gwasanaethau mynediad.

Mae gan y Sianel drysorfa werthfawr o raglenni sy'n rhan o feysydd llafur nifer o sefydliadau addysg ar draws pob oed. Gan wneud y gorau o'r adnodd yma gallwn gynnig gwasanaeth gwerthfawr i'r gynulleidfa, felly ar brynhawn Sul byddwn yn cynnig darpariaeth addysg.

Mae S4C yn adnodd pwysig i ddysgwyr y Gymraeg. Mi fydd ein gwasanaethau ar-lein bresennol yn aros fel y maent tan fis Mawrth. Ar ôl hynny bydd ein gwasanaethau i ddysgwyr yn cael eu hystyngi i gynnwys awr o ddarlledu penodol ar brynhawn Sul.

Cyfresi drama, crefydd, diwylliant a ffeithiol fydd conglfeini S4C ar nos Sul. Byddwn yn ceisio sicrhau cymaint ag y medrwn o gyfresi drama gwreiddiol am 21.00 ar nos Sul. Yn yr amserlen newydd bydd rhaglenni nos Sul yn dod i ben gyda chyfres newydd fydd yn cloriannu rhaglenni'r Sianel o'r wythnos cynt a chynnig rhagflas o'r hyn sydd i ddod.

Yn ystod wythnos gyntaf Tachwedd 2012 mi fydd y Sianel yn dathlu pen-blwydd 30 mlynedd o ddarlledu. Ar wahanol adegau trwy'r wythnos honno mi fyddwn yn cynnig amrywiaeth o gynnwys apelgar fydd yn nodi'r achlysur.

3. Cynnwys

Digwyddiadau

Mae ein cynulleidfa ni'n nodi'n glir mai S4C ydi cartref digwyddiadau o ddiddordeb Cymreig. Mi fyddwn ni'n cryfhau ein hymrwymiad yn y maes yma gan ddarparu mwy o brif ddigwyddiadau Cymru ar gyfer gwylwyr o bob oed. Yn ystod cyfnodau'r Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a'r Sioe Frenhinol, mi fydd ein darllediadau o'r gwyliau yma'n llywio'r holl amserlen. Drwy gynnig gwasanaeth gwerthfawr ac estynedig i'n gwylwyr fe allwn ni wneud yn siŵr ein bod ni'n cael y gwerth gorau o'n buddsoddiad.

Yn ogystal â hyn, mi fydd 'na fwy o gynnwys yn cael ei ddarparu o ddigwyddiadau Cymreig llai amlwg. Mi fydd ein cynnwys ni'n adlewyrchu'r croestoriad a'r amrywiaeth o ddiddordebau sy'n rhan annatod o gymdeithas fodern Cymru.

Diwylliant, Cerddoriaeth a Chrefydd

Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr ein bod ni'n gallu adlewyrchu a chryfhau ein hunaniaeth genedlaethol, yn arbennig felly drwy ein rhaglenni diwylliant. Mae'n hollbwysig y bydd 'na gyfres fydd yn portreadu prif weithgaredd diwylliannol Cymru. Rydyn ni hefyd yn ystyried cynnig lle ar gyfer cynnwys unigol a chyfresi ychwanegol er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni'n adlewyrchu holl gyffro creadigol y genedl. Mae gan S4C gyfraniad pwysig i'w wneud ym maes cerddoriaeth ac mae'n fwriad cynnig croestoriad o gynnwys cerddorol i'n cynulleidfa.

Mi fyddwn ni'n parhau i adlewyrchu crefydd ar S4C. Mi fydd ein cynnwys yn adlewyrchu agweddau o grefydd draddodiadol y Cymry yn ogystal â phortreadu amrywiaeth eang o destunau crefyddol ac athronyddol.

Ffeithiol a Materion Cyfoes

Mi fydd ein cynnwys ffeithiol yn gyfoes ac yn adlewyrchu pob agwedd o gymdeithas y Gymru fodern. Allwn ni ddim chwaith ddiystyru pwysigrwydd a phoblogrwydd rhaglenni hanes, natur a gwyddoniaeth yn y maes yma. Mae'n hanfodol bod ein cynnwys ffeithiol yn apelgar, adloniannol, yn addysgu ac yn hysbysu ein cynulleidfa. Mae angen i'r cynnwys ychwanegu at ddeallusrwydd y gwylwyr o bynciau cyfredol ac o'r gorffennol yng Nghymru a thu hwnt. Fe fyddwn ni'n dilyn yr un egwyddorion yn ein cynnwys Materion Cyfoes, gan wneud yn siŵr fod 'na blwraliaeth ar draws y gwasanaeth. Mi fyddwn yn cwrdd â thargedau a gafodd eu cytuno gydag Ofcom yn y maes yma.

Yn ôl ein hymchwil, mae'r gwylwyr yn gwerthfawrogi cynnwys gwledig S4C ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i adlewyrchu'r byd yma ar draws ein gwasanaeth.

Adloniant

Mi fydd 'na bwyslais cynyddol ar adloniant teuluol, yn enwedig ar nos Sadwrn. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn gallu cynnig adloniant sy'n fwy heriol a miniog, yn arbennig wrth ystyried y gynulleidfa o dan 45 oed. Mi fydd cynnwys o'r fath yn cael ei ddarparu ar nosweithiau Iau a Gwener. Mae ein cynulleidfa wedi dweud eu bod nhw eisiau mwy o gynnwys sy'n gwneud iddyn nhw chwerthin.

Comedi

Mae'r gynulleidfa wedi ategu dro ar ôl tro fod yna ddiffyg comedi ar S4C. Byddwn yn blaenoriaethu gwaith datblygu yn y maes hwn. Rydym yn rhagweld mai buddsoddi mewn unigolion yw'r cam cyntaf yn hytrach na mewn strwythurau cwmnïau. Mae argaeledd amrywiaeth o blatfformau digidol a phosibiliadau er mwyn cydweithio a chreu partneriaethau, yn cynnig mwy o gyfleoedd inni arbrofi yn y maes yma.

Plant a Phobol Ifanc

Mae'n ymrwymiad i ddarparu cynnwys ar gyfer plant a phobol ifanc o fewn yr amserlen yn parhau. Rydyn ni wedi ailddiffinio rhaniad oed y cynnwys yma i fod ar gyfer plant i fyny i 6 oed sef **Cyw**, a gwasanaeth **Stwnsh** i blant rhwng 7 a 12. Rydyn ni'n derbyn fod pobol ifanc sy'n hŷn na hyn am gael y rhyddid i ddewis eu cynnwys cyfryngol. Ein bwriad yw ceisio diwallu'r anghenion yma gyda chynnwys penodol ac apêl ar draws holl wasanaethau'r Sianel.

Chwaraeon

Mae chwaraeon yn hynod o bwysig i'n gwylwyr ni, gan gynnwys y di-gymraeg a'r gwylwyr achlysurol. Mae hyn yn ymestyn apêl y Sianel ac yn cryfhau ein cyrhaeddiad masnachol. Rydyn ni am barhau i wneud y defnydd gorau o'n hawliau chwaraeon. Drwy gael hawliau darlledu yn yr iaith Gymraeg, mae'n rhaid cofio fod S4C yn gallu cynnig gwasanaeth gwerthfawr i wylwyr y campau ar draws Prydain, yn arbennig felly pan mai darlledwr tanysgrifol sydd a'r prif hawliau. Rhaglenni byw fydd yn cael y flaenoriaeth yn y maes yma all olygu newid trefn yn yr amserlen.

Drama

Mae drama yn eithriadol o bwysig i'r gwylwyr. Mi fydd **Pobol y Cwm** a **Rownd a Rownd** yn gonglfeini cyson i'r amserlen drwy gydol y flwyddyn. Rydyn ni'n hyderus yn ein gallu i gystadlu am gynulleidfaoedd drama ar nos Sul gan fod ein cynulleidfa yn dweud wrthon ni mai dyma'r lle maen nhw eisiau gweld ein cyfresi drama gwreiddiol yn cael eu darlledu. Mi fyddwn ni, felly, yn darlledu amrywiaeth o gyfresi drama unigol ar nosweithiau Sul. Mi fyddwn ni'n ystyried ailddarlledu ein prif gyfresi drama yn ystod wythnosau'r haf, yn ogystal â dramâu a chyfresi o'r archif. Mi fyddwn hefyd chwilio am ffyrdd rhatach a dyfeisgar i greu cynnwys drama.

Addysg

Mae archif helaeth y sianel yn cynnig potensial ar gyfer ei briodi gyda chynlluniau addysg a'r cwricwlwm. Trwy bartneru gyda sefydliadau, cyrff a phrifysgolion ym myd addysg ar gyfer bob oed mi allwn ni wneud y defnydd gorau o'r adnodd cyfoethog yma.

I ddechrau, dydyn ni ddim yn rhagweld y byddwn ni'n comisiynu deunydd gwreiddiol; y nod fydd addasu a sicrhau defnydd effeithiol a phwrpasol o'r archif. Fel rhan o'r bartneriaeth mi fydd modd i'r sefydliadau addysg gyfrannu deunydd, fydd naill ai'n atodol neu wedi ei greu'n benodol i atgyfnerthu'r cynnwys fydd i'w weld ar bob plattform. Rydyn ni'n rhagweld y bydd y ddarpariaeth yma'n targedu unigolion o bob oed i gyd-fynd a'r egwyddor o ddysgu gydol oes.

Dysgwyr

Mae dysgwyr yn garfan bwysig o'n cynulleidfa ni. Mi fyddwn ni'n rhoi pwyslais newydd ar gynnig gwasanaeth gwell i'r rheini sy'n dysgu Cymraeg. Dydyn ni ddim yn bwriadu dyblygu nag ail greu gweithgareddau sy eisoës yn cael eu cyflawni gan y Mentrau a'r Canolfannau sy'n darparu deunydd proffesiynol a chyflawn ar gyfer dysgwyr. Yr hyn y gallwn ni ei wneud ydi cynnig deunydd addas i'r gynulleidfa darged drwy rym ein cynnwys.

Mi fydd cynnwys aml-blattform yn cael ei deilwra i bwrpas ac yn cynnig adloniant a symbyliad i ddatblygiad y dysgwr unigol. Drwy sefydlu partneriaethau ym maes Dysgu Cymraeg, mi fydd modd creu llwybr clir i ddysgwyr fydd yn golygu y byddan nhw'n gallu mwynhau cynnwys S4C yn ei gyfanrwydd maes o law.

Mae potensial mawr i ehangu cyrhaeddiad y Sianel wrth groesawu gwylwyr sy'n ymwneud â'r Gymraeg o'r newydd. Mi fydd angen gwneud yn siŵr ein bod ni'n hyrwyddo gweddill yr amserlen a'r adnoddau sydd ar gael i ddysgwyr mewn modd clir a syml. Rydyn ni'n rhagweld y bydd 'na beth defnydd o Saesneg o gwmpas y cyfnod darlledu penodol yma er mwyn tywys y rheini sy leiaf rhugl neu'r di-Gymraeg i fwynhau cynnwys y Sianel a'u gwneud nhw'n ymwybodol o wasanaeth is-deitlau 889.

Iaith

Mae'n hanfodol fod cynnwys S4C yn defnyddio Cymraeg clir a chywir y bydd pobol yn ei ddeall. Mae disgwyliadau a gofynion ieithyddol ein cynulleidfa yn gwahaniaethu'n fawr ar draws y gwahanol fathau o gynnwys sy ar y Sianel. Mae hyn yn golygu bod ein cynhyrchwyr yn gallu cynllunio ac addasu iaith y cynhyrchiad i ymateb i ofynion y gynulleidfa darged. Mae'n bwysig ein bod ni'n chwarae rhan flaenllaw ac yn ymateb i esblygiad yr iaith. Rydyn ni am gydweithio'n agos gyda chyrff cenedlaethol yn y maes gan wneud yn siŵr bod ein cynhyrchwyr yn ymwybodol o dueddiadau a datblygiadau'r iaith. Mi fydd hynny'n ein helpu ni i wneud yn siŵr ein bod ni'n creu cynnwys sy'n berthnasol i'r gynulleidfa.

Amrywiaeth

Mae'n bwysig fod S4C, fel darlledwr cyhoeddus, yn adlewyrchu a hyrwyddo amrywiaeth, cyfle cyfartal a thriniaeth deg. Mae hyn yn wir ymhob rhan o fusnes S4C fel cyflogwr ac fel comisiynydd cynnwys.

Mi fydd S4C yn gofyn i gynhyrchwyr wneud yn siŵr bod y cynnwys sy'n cael ei gomisiynu yn adlewyrchu'r gymuned a'r gwylwyr.

Mi fyddwn ni'n codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ystod llawn amrywiaeth o fewn ein cynnwys a'n gwasanaethau sy'n cynnwys is-deitlo, arwyddo a llun-ddisgrifio.

Mi fyddwn ni'n parhau i ailddarlledu nifer o'n rhaglenni poblogaidd gydag is-deitlau agored. Mi fydd ein gwasanaethau ni'n cydymffurfio gyda thargedau Ofcom, targedau Awdurdod S4C a'r rhai sy'n cael eu nodi yn y Ddeddf Gyfathrebiadau.

Lle bydd hynny'n bosib ac yn addas mi fyddwn ni'n ceisio cynnig gwasanaeth trac sain Saesneg dewisol ar ein darpariaeth o ddiwyddiadau a chwaraeon. Mae gwasanaeth o'r fath yn ffordd o estyn cyrhaeddiad ac effaith fasnachol y cynnwys gan ddenu gwylwyr newydd at y Sianel. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd inni farchnata gweddill ein cynnwys i gynulleidfa newydd. Mi fydd y ddarpariaeth yma'n parhau i gael ei hariannu o ffynhonnell fasnachol.

Ailddarlledu

Mi fyddwn ni'n ceisio cael cydbwysedd rhwng sicrhau effaith a chyrhaeddiad rhaglenni unigol trwy eu hailddarlledu, ond byddwn ni'n ceisio gwneud yn siŵr na fydd hyn yn amharu ar fwynhad y gynulleidfa sy'n gwyllo ein Sianel yn gyson.

Pan fydd 'na ddiffyg cynnwys gwreiddiol ac apelgar mewn unrhyw faes yna fe fyddwn ni'n gwneud y gorau o'r deunydd sydd yn yr archif.

Mae gwasanaeth Clic, wrth gwrs, yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr y we wyllo'r rhan fwyaf o'n rhaglenni ni ar ôl iddyn nhw gael eu darlledu. Mae llawer o'n cynulleidfa erbyn hyn yn manteisio ar y dechnoleg recordio ddiweddaraf.

Lleol, Ar-lein, Ar Gael yn fyw ac Ar Alw

Mae'n hynod bwysig fod presenoldeb effeithiol i wasanaethau S4C ar gael ar draws y platfformau digidol. Rydym am ddatblygu ac ymestyn y ddarpariaeth ar y llwyfannau yma yn ystod 2012 gan fabwysiadu rhai o argymhellion Adroddiad y Fforwm Cyfryngau Newydd.

Mae Gweledigaeth 2012 a Thu Hwnt yn nodi ein bod yn awyddus i ddatblygu'r syniad o greu llwyfan a chynnig cartref a chymuned i gynnwys yn yr iaith Gymraeg byd eang ar y we. Mi fyddai'r fath llwyfan hefyd yn gartref i gynnwys lleol ac yn rhan ganolog o ymgais y Sianel i glosio at ein cymunedau, gan roi llwyfan ehangach i weithgarwch lleol.

Mae cynnig cynnwys ar-lein yn greiddiol i S4C ac mae darpariaeth ar alw a chydamserol byw Clic yn rhan allweddol o'n gwasanaeth.

4. Gwasanaethau

Byddwn yn parhau i gynnal gwaith ymchwil ansoddol a meintiol cyson gyda'r gwylwyr ac yn ystyried y casgliadau wrth gynllunio'r amserlen. Yn ogystal byddwn yn sefydlu a chynnal Panel y Bobol sef panel fydd yn adrodd eu barn am ein cynnwys a fydd yn cynnwys gwylwyr selog yn ogystal â'r rhai sydd yn tueddu i beidio â gwyllo'r Sianel ar hyn o bryd. Yn ogystal rydym am gynnal llwybr clir i'n gwylwyr gysylltu â ni. Bydd Gwifren ar gael i dderbyn sylwadau ac ymholiadau. Byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd eraill i gasglu a chlywed barn ein gwylwyr. Mae'n hanfodol ein bod yn ymateb i ofynion ein defnyddwyr.

Mae'r hinsawdd economaidd yn gosod her anferthol i'r Sianel ac i'r sector gynhyrchu annibynnol. Mewn partneriaeth greadigol gyda'n gynhyrchwyr byddwn yn gwireddu ein hawydd i weithio mewn ffyrdd dyfeisgar a chreadigol er mwyn cynnig gwasanaeth o'r safon uchaf.

Rydym yn ymrwymo i sicrhau y bydd o leiaf 95% o'r oriau a gomisiynir yn uniongyrchol gan S4C yn 2012 yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau annibynnol.

Byddwn yn gweithredu proses gomisiynu fel yr amlinellir yn y ddogfen Gweledigaeth 2012 a Thu hwnt dan yr adran Cynllun Cyfleu. Mae hyn ar ffurf Ffenestri Comisiynu, ond er mwyn cynnal hyblygrwydd a'r gallu i ymateb i ddigwyddiadau ac i newid yng ngofynion ein gwylwyr rydym hefyd yn cadw'r hawl i gomisiynu y tu allan i gyfnodau'r Ffenestri Comisiynu. Pan fydd gofyn byddwn yn parhau a'n polisi tendro agored fel dull o sicrhau gweithredu cystadleuol a theg.

Yn ogystal â rhaglenni a gomisiynir yn uniongyrchol gan S4C mae o leiaf 10 awr o raglenni'r wythnos yn cael eu darparu gan y BBC fel gofyniad statudol ac o fewn fframwaith y Cytundeb Partneriaeth Strategol. Mae'r cytundeb presennol yn weithredol tan 2013.

Yn 2012 bydd gwasanaethau S4C ar gael ar DTT a chebl yng Nghymru, ac ar fand llydan a lloeren trwy'r Deyrnas Unedig.

Bydd S4C yn adolygu'n gyson ac yn adnabod cyfleoedd er mwyn cynnig ein gwasanaethau ar lwyfannau eraill yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Bydd S4C Clic yn parhau i fod yn wasanaeth gwerthfawr i'n cynulleidfa drwy alluogi gwyllo ein cynnwys ar alw ac yn gydamserol ar-lein.

Cred S4C yn yr angen i hyrwyddo amrywiaeth, cyfleoedd cyfartal a thriniaeth deg. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ystod llawn amrywiaeth o fewn ein cynnwys a'n gwasanaethau sy'n cynnwys is-deitlo ac arwyddo. Byddwn yn parhau i ailddarlledu nifer o'n rhaglenni mwyaf poblogaidd gydag is-deitlau agored.

Bydd ein gwasanaethau yn cydymffurfio gyda thargedau Ofcom, targedau Awdurdod S4C, a'r rhai a nodir yn y Ddeddf Gyfathrebiadau. Byddwn yn darlledu o leiaf 90% o raglenni gwreiddiol yn ystod yr oriau brig. Rhwng Ionawr a Mawrth byddwn yn edrych i daro'r cydbwysedd rhwng sicrhau effaith a chyrhaeddiad rhaglenni unigol trwy eu hailddarlledu, ond byddwn yn sicrhau nad yw hyn ar draul mwynhad y gynulleidfa sy'n gwyllo'n gyson. O fis Mawrth mi fydd yna lai o gyfleoedd i ailddarlledu o fewn y brif amserlen, byddwn felly yn rhoi mwy o bwyslais ar wasanaeth Clic. Byddwn yn ystyried ail ddangos ein rhaglenni mwyaf poblogaidd yn ystod y cyfnod ailddarlledu ym mis Awst.

Mae S4C yn camu i flwyddyn nodedig 2012 yn hyderus. Trwy wrando'n gyson ar ein cynulleidfa a thrwy bartneriaeth greadigol a'n cynhyrchwyr â'n darparwyr cynnwys rydym yn sicr y gallwn gyflawni ein dyheadau a'n dyletswyddau a chyfleu gwasanaeth gwerthfawr, cost effeithiol ac o safon i'n defnyddwyr.